

Pwyllgor Ymchwil Cymru CCAUC: Swyddi gwag ar gyfer dau aelod annibynnol

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn chwilio am ddau aelod annibynnol newydd i ymuno â Phwyllgor Ymchwil Cymru.

Beth mae'r Pwyllgor yn ei wneud

Pwyllgor Ymgynghorol yw Pwyllgor Ymchwil Cymru sy'n galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau deallus ynghylch ariannu a'r mecanweithiau a fydd yn cryfhau ac yn cynnal amgylchedd ymchwil ac arloesi llwyddiannus yng Nghymru. Anogir Aelodau i arwain gweithgorau ar feysydd allweddol sydd o ddiddordeb neu sy'n berthnasol i bolisi, er mwyn cynghori'r Cyngor ar lefel uwch.

Mae'r Pwyllgor fel arfer yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, naill ai yn swyddfa CCAUC ym Medwas neu yng nghanol dinas Caerdydd. Cynhelir pob cyfarfod yn ystod oriau swyddfa arferol. Bydd pob cyfarfod fel arfer yn para tair awr, gan orffen gyda chinio.

Dyma'r cyfarfodydd sydd wedi'u trefnu ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019/20:

- 22 Hydref 2019
- 27 Chwefror 2020
- 16 Mehefin 2020

Yn ogystal â bod yn bresennol yn y cyfarfodydd, bydd agen i chi neilltuo amser i ddarllen papurau cyfarfod a gwybodaeth gefndirol.

Ceir rhagor o wybodaeth am [aelodaeth a chylch gorchwyl](#) y Pwyllgor ar ein gwefan (www.hefcw.ac.uk).

Y rolau

Bydd yr aelodau'n cynnig safbwynt annibynnol allanol ac yn cefnogi a herio gwaith y Pwyllgor. Bydd gennych fynediad at rwydweithiau perthnasol ar draws Cymru ac/neu'r DU, ac o bosib yn rhyngwladol, a diddordeb brwd mewn datblygu a chefnogi polisi ymchwil ac arloesi yng Nghymru.

Arbenigwr mewn ymchwil ac arloesi (academaidd neu ddiwydiannol)

- Yn ddelfrydol bydd gennych ystod o brofiadau mewn rôl ymchwil ac/neu arloesi, naill ai mewn cyd-destun academiaidd neu ddiwydiannol/busnes.
- Bydd gennych ddealltwriaeth o ddatblygiad polisi lleol, cenedlaethol neu rhyngwladol, a byddwch wedi bod yn ymwneud â chyflawniad strategol o fewn eich sefydliad.
- Bydd gennych ddealltwriaeth gref o amgylchedd polisi ymchwil ac arloesi'r DU, a byddwch yn gweld sut mae ymchwil ac arloesi mewn prifysgolion yn gysylltiedig â datblygiad economaidd a blaenoriaethau eraill sydd gan lywodraeth.
- **Os ydych yn aelod academiaidd**, yn ddelfrydol bydd gennych broffil rhyngwladol a mynediad at ystod o rwydweithiau disgyblaethol ar draws Cymru, y DU ac yn rhyngwladol.

- **Os ydych yn aelod diwydiannol**, bydd disgwyl ichi feddu ar brofiad o brosiectau cydweithredol ag ymchwilwyr prifysgol, o adeiladu ymchwil ym mhroffil eich sefydliad ac/neu o gyfrannu at y tirlun arloesi yn eich maes.

Academydd ar ddechrau gyrfa

- Fel ymchwilydd ar ddechrau gyrfa, byddwch yn ymchwilydd gweithgar ac annibynnol sy'n gweithio mewn prifysgol, ac wedi ennill eich Doethuriaeth o fewn y saith mlynedd diwethaf.
- Yn ddelfrydol, bydd gennych brofiad llwyddiannus o dderbyn cymrodoriaeth neu gyllid grant fel Prif Ymchwilydd.
- Bydd gennych rwydweithiau da a mynediad at amrywiaeth o farnau a safbwyntiau disgyblaethol.
- Byddwch yn gyfarwydd â pholisi ymchwil ac arloesi'r DU ar gyfer prifysgolion.

Fel aelod o bwyllgor CCAUC, bydd disgwyl i chi gadw at yr egwyddorion a nodwyd yn y [Cod Ymddygiad i Aelodau CCAUC](#). Bydd yn ofynnol ichi ddatgan yr holl fuddiannau perthnasol drwy lenwi ffurflen datgan buddiannau, a bydd y manylion hynny'n cael eu harddangos i'r cyhoedd ar wefan CCAUC.

Telerau penodi

Mae'r rôl am gyfnod penodol o dair blynedd. Rôl ddi-dâl yw hon, ond rydym yn talu [costau teithio a chynhaliath](#) .

I gael gwybod mwy am y rôl neu am waith y Pwyllgor, cysylltwch â Jennifer Evans, Uwch Reolwr Ymchwil (jennifer.evans@hefcw.ac.uk, 029 2085 9647).

Ceisiadau

Mae CCAUC yn credu bod amrywiaeth yn gwella penderfyniadau ac rydym yn croesawu ymholiadau o bob rhan o'r gymuned. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn derbyn ceisiadau gan unigolion sy'n cael eu tangynrychioli ar y Pwyllgor ar hyn o bryd, gan gynnwys merched, pobl anabl, BME ac LGBT+. Caiff yr holl geisiadau eu trin yn yr un modd, a phenodir ar sail teilyngdod. Rydym yn croesawu ceisiadau a gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, ni fydd manylion yr ymgeiswyr aflwyddiannus, gan gynnwys eu CV, yn cael eu cadw am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol i ddibenion prosesu'r cais hwn. Gofynnir am eich caniatâd ysgrifenedig os bydd CCAUC yn dymuno cadw eich manylion ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol.

Os ydych yn credu bod gennych chi wybodaeth ac arbenigedd i ychwanegu gwerth fel aelod o Bwyllgor Ymchwil Cymru, anfonwch **ddatganiad ymgeisio un dudalen o hyd yn rhoi sylw i ofynion y rôl, ynghyd â fersiwn gryno o'ch CV a [ffurflen monitro cydraddoldeb](#) wedi'i llenwi, erbyn 10 Medi 2019 i:**

Drwy e-bost:
jennifer.evans@hefcw.ac.uk

Drwy'r post:
Jennifer Evans
Uwch Reolwr Ymchwil
CCAUC
Tŷ Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT